**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 22 Hydref 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 fel cofnod cywir.* |
| **5** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) cymeradwyo trosglwyddo arian o'r Cyflawniad Arbedion Wrth Gefn i'r Gwasanaethau Hamdden i osod yn erbyn yr angen i ddyrannu'r arbedion Benthyca Darbodus i'r SC2 yn hytrach na'r oedi i sefydlu'r Model Cyflenwi Amgen.* |
| **6** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **7** | CASTELL BODELWYDDAN | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) bod y Cyngor yn gwerthu'r cysylltiad rhydd-ddaliad yng Ngwesty Castell Bodelwyddan ar delerau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;*<br><br>*(b) bod y Cyngor yn gwerthu'r cysylltiad rhydd-ddaliad yn eiddo Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, (ac eithrio tir ar osod ar denantiaeth amaethyddol, y Lodge a thir ar gyfer mynediad cyhoeddus) ar delerau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c)* *y Cyngor i gadw'r parcdir maes parcio porfa, ynghyd â phrydles 999 mlynedd o'r coetir a'r ddôl, ar gyfer mynedfa gyhoeddus a gynhelir gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad (yn amodol ar y Grŵp Buddsoddiad Strategol yn cymeradwyo'r cyllid angenrheidiol i sefydlu a chynnal yr ardal hon a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych.*<br><br>*(d)* *tir sydd ar hyn o bryd ar denantiaeth amaethyddol yn cael ei gadw a'i reoli ar y cyd â thir a ffermydd amaethyddol eraill y Cyngor, a'r*<br><br>*(e)* *bwthyn bach ar derfyn dwyreiniol y stad yn cael ei gadw gan y Cyngor nes ceir adolygiad o'i ddefnydd.* |